**Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru**
**Welsh European Funding Office**
**Swyddfa'r Prif Weinidog**
**Office of the First Minister**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

23 Awst 2018

Annwyl gyfaill,

Heddiw (23 Awst), mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi'r gyfres gyntaf o hysbysiadau technegol Brexit i roi cyngor i fusnesau a dinasyddion ynglŷn â'r sefyllfa pe bai'r DU yn ymadael â'r UE heb allu negodi cytundeb (hynny yw, 'dim cytundeb').

Deallwn fod Llywodraeth y DU yn bwriadu cyhoeddi tua 80 o hysbysiadau technegol cyn diwedd mis Medi, a'r rheini'n cynnwys camau ymarferol yn ymwneud ag amrywiaeth eang o faterion, megis gwasanaethau ariannol, iechyd, newid hinsawdd a thrafnidiaeth. Ymhlith yr hysbysiadau technegol a gyhoeddwyd heddiw mae'r un yn ymwneud â gwarant Llywodraeth y DU ar gyfer rhaglenni ariannu'r UE os na fydd cytundeb Brexit. Mae hwn ar gael ar wefan www.gov.uk. Roedd y Cytundeb Ymadael drafft rhwng yr UE a'r DU yn cynnwys darpariaeth inni allu parhau i gymryd rhan yn y rhaglenni a'r gweithgareddau ariannu hyn nes y byddant yn dod i ben yn 2023.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn gyson y byddai ymadael heb gytundeb yn drychineb i Gymru ac i'r DU - yn ergyd galed i economi, swyddi, masnach a gwasanaethau yng Nghymru yn ogystal ag i ystod o sectorau eraill. Y flaenoriaeth gyntaf, felly, oedd gwarchod rhag y posibilrwydd hwnnw a sicrhau'r canlyniad gorau i Gymru. Ond, bellach, mae angen cynllunio ar gyfer senarios posibl rhag ofn na fydd cytundeb.

Mae Llywodraeth y DU wrthi'n ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig ynghylch manylion yr hysbysiadau technegol sy'n ymwneud â Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, ac mae'n disgwyl cyhoeddi'r rhain yn ystod yr wythnosau nesaf.

Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru
EU Funds: Investing in Wales
UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
RegioStars Winner 2008, 2009, 2011 & 2014
EU Regional Policy
Regions of Excellence
Winner 2011

Swyddfa Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil Office
Rhydycar / Rhydycar
Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil
CF48 1UZ

Ffôn/Tel: 0845 010 3355
E-Bost/E-Mail: enquiries-wefo@gov.wales

**Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.**

**We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.**

Gall buddiolwyr presennol a phosibl rhaglenni'r UE yng Nghymru fod yn sicr, pe na bai cytundeb yn deillio o'r negodiadau â'r UE, y byddai Trysorlys y DU yn gwarantu'r holl wariant a wneir yn ystod oes y prosiectau y dyfernir arian o Gronfeydd Strwythurol Ewrop iddynt cyn diwedd mis Rhagfyr 2020. Felly, dylai'r buddiolwyr presennol a'r rhai posibl barhau i:

(1) cyflawni eu prosiectau fel y cytunwyd â WEFO; a

(2) ymgeisio am arian o gronfeydd yr UE yn y ffordd arferol drwy'r broses o gyflwyno cynllun busnes.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y llythyr hwn, o safbwynt eich prosiectau a ariennir gan yr UE a/neu eich cynigion am brosiectau, cysylltwch â'ch Rheolwr Blaenoriaeth ar gyfer cronfeydd yr UE, fel a ganlyn:

- ESF: Dean Langley (dean.langley@gov.wales; 0300 062 8242) neu Michael Parkinson (Michael.parkinson@gov.wales; 0300 062 2441)
- ERDF: Paul Smith (paul.smith@gov.wales; 0300 062 8486) neu Geraint Green (Geraint.green@gov.wales; 0300 062 8357)

Yn gywir,

Sioned Evans
Prif Weithredwr
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru